# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

Dydd Mercher, 22 Mawrth 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G.O. Jones (Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafelle 72A - Neuadd y Sir - 10.00 - 10.10 am**

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y lleoedd gwag i Lywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi ei roi i Gadeirydd y Llywodraethwyr, i'r Pennaeth ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd. Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr ALl yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y swydd yn wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaethai i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr ALl er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol | Penodiadau |
|---|---|
| **Pen-bre**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Mrs J Davies |
| **Rhys Pritchard**<br>(2 le gwag – 2 enwebiad) | Y Parch. I. Aveson<br>Y Cynghorydd I.J. Jackson |
| Stebonheath<br>(1 lle gwag, 2 enwebiad) | Y Cynghorydd J. Edmunds |
| **Dyffryn Aman**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Mrs M. Wyn |
| **Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | Mrs M. Evans |

## 3. CYMERADWYO DYDDIADAU TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2018/19.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a fanylai ar ddyddiadau arfaethedig tymhorau a gwyliau'r ysgolion ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Dywedwyd bod rheidrwydd, o dan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig

i gydlynu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod dyddiadau'r tymhorau'r un fath, neu cyn agosed ag y bo modd, ar yr amod y gallai Gweinidogion Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd ynghylch dyddiadau'r tymhorau os na ellid eu cysoni neu os oedd angen eu newid. Gan roi sylw i ofynion y Ddeddf, yr oedd y dyddiadau arfaethedig canlynol wedi'u paratoi ar gyfer dyddiadau tymhorau a gwyliau'r ysgolion yn sgil eu trafod ac yn sgil ymgynghori'n gyffredinol â'r awdurdodau cyfagos:-

| **Tymor** | **Cychwyn** | **Dechrau Hanner Tymor** | Diwedd Hanner Tymor | **Diwedd Tymor** |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | Dydd Llun 3 Medi 18 | Dydd Llun 29 Hyd 18 | Dydd Gwener 2 Tach. 18 | Dydd Gwener 21 Rhag. 18 |
| **Gwanwyn** | Dydd Llun 7 Ion. 19 | Dydd Llun 25 Chwef. 19 | Dydd Gwener 1 Mawrth 19 | Dydd Gwener 12 Ebrill 19 |
| **Haf** | Dydd Llun 29 Ebr. 19 | Dydd Llun 27 Mai 19 | Dydd Gwener 31 Mai 19 | Dydd Llun 22 Gorff. 19 |

*Dydd Sul y Pasg - Dydd Sul 21 Ebrill 2019; Calan Mai - Dydd Llun 6 Mai 2018*

Rhoddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, pe byddid yn cymeradwyo'r dyddiadau, y byddent yn amodol ar y trefniadau cysoni a amlinellwyd uchod ac felly na ellid eu cadarnhau'n derfynol hyd nes y byddid wedi cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar gael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru, gymeradwyo Dyddiadau Tymhorau a Gwyliau'r Ysgolion ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2018/19.**

**4. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 13EG CHWEFROR, 2017**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 13 Chwefror, 2017 yn gofnod cywir.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**